Rhif: WG35326

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cylchlythyr – Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn

Mehefin 2018

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

OGL © Hawlfraint y Goron Digital ISBN 978-1-78937-413-1

**Ymgynghoriad ar y Cylchlythyr drafft: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn**

**Adroddiad ar y Crynodeb o'r Ymatebion**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus 12-wythnos ar y Cylchlythyr drafft: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn rhwng 27 Chwefror a 22 Mai 2017.

1.2 Mae'r system gynllunio yn chwarae rôl bwysig wrth sicrhau y darperir safleoedd cynaliadwy a all letya cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r Cylchlythyr: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn yn rhoi cyngor sy'n helpu awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd cynaliadwy sy'n diwallu anghenion llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn ledled Cymru.

1.3 Cafodd cyfanswm o dri ar ddeg o gwestiynau eu holi yn ystod yr ymgynghoriad ar y Cylchlythyr drafft. Roedd y cwestiynau hyn yn canolbwyntio ar ba un a oedd y drafft yn rhoi cyngor priodol ar sut y dylid darparu llety i Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn drwy'r system gynllunio; yn arbennig, o ran dyrannu safleoedd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol a phenderfynu ar gynigion ar gyfer safleoedd yn ystod y broses Rheoli Datblygu. Roedd y cwestiwn olaf yn rhoi cyfle i ymatebwyr wneud unrhyw sylwadau ychwanegol nad oedd y cwestiynau blaenorol wedi caniatáu ar eu cyfer.

1.4 Roedd y sylwadau a wnaed yn amrywiol ac yn fanwl, ac yn tynnu sylw at lawer o faterion unigol a thematig. Oherwydd natur y sylwadau a ddaeth i law, ni chyfeiriwyd yn benodol at yr holl sylwadau manwl a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn yr adroddiad cryno hwn.

1.5 Mae'r adroddiad cryno hwn ar yr ymgynghoriad yn rhoi crynodeb o'r holl ymatebion a gafwyd mewn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn ar y Cylchlythyr drafft ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r materion hynny a godwyd. Mae canlyniadau'r dadansoddiad hwn wedi llywio'r Cylchlythyr terfynol a gyhoeddwyd.

## 2. Cefndir

2.1 Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno sicrhau y darperir ar gyfer anghenion cymunedau Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru yn y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r cyngor presennol i awdurdodau cynllunio ar ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi'i gynnwys yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 30/2007 - Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr. Caiff Cylchlythyr 30/2007 ei ategu gan ddau Gylchlythyr y Swyddfa Gymreig, sef:

- Cylchlythyr 78/91: Perfformwyr Teithiol. Mae'r Cylchlythyr hwn yn cynnwys cyngor i awdurdodau lleol am ystyriaethau sy'n ymwneud â Siewmyn Teithiol.
- Cylchlythyr 76/94: Y Polisi ar Safleoedd Sipsiwn a Gwersylla Diawdurdod. Mae'r Cylchlythyr hwn yn cynnwys cyngor i awdurdodau lleol ar wersylla diawdurdod gan gymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

Nid yw cynnwys y Cylchlythyrau hyn wedi newid ers iddynt gael eu cyhoeddi'n wreiddiol ym mis Rhagfyr 2007, mis Rhagfyr 1991 a mis Tachwedd 1994 yn y drefn honno.

2.2 Daeth Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gyfraith yng Nghymru ar 17 Medi 2014 ac mae'n cynnwys darpariaethau ar ddarparu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Yn benodol, mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn gofyn bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn ei ardal, a hynny bob pum mlynedd o leiaf. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau pellach yn gofyn bod pob awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hynny a nodir yn yr asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer ei ardal. Mae'r Ddeddf yn darparu diffiniad wedi'i ddiweddaru o 'Sipsiwn a Theithwyr' sydd erbyn hyn yn cynnwys Siewmyn Teithiol, yn ogystal â phersonau sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu fyw mewn cartref symudol.

2.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau canllaw ar Sipsiwn a Theithwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf sydd â'r nod o helpu awdurdodau lleol i fodloni'r gofynion sydd arnynt, fel y nodir yn Neddf Tai (Cymru). Mae'r canllawiau hyn hefyd yn ceisio sicrhau bod awdurdodau lleol yn rheoli ac yn dylunio safleoedd yn briodol er mwyn cynnig safon byw da i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

2.4 Mae'r system gynllunio yn chwarae rôl bwysig wrth sicrhau y darperir safleoedd cynaliadwy a all gymhwyso cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Er mwyn i ni ddarparu safleoedd cynaliadwy i'n cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, rhaid i ni sicrhau bod gan awdurdodau cynllunio y dulliau a'r canllawiau perthnasol i ddiwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn llawn drwy gydol y broses gynllunio.

2.5 Cyhoeddwyd Cylchlythyr newydd: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn er mwyn adlewyrchu'n llawn y diweddariadau deddfwriaethol a'r canllawiau diweddaraf sy'n ymwneud â sut y mae awdurdodau lleol yn darparu safleoedd er mwyn diwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

2.6 Mae'r Cylchlythyr newydd hwn yn atgyfnerthu'r diffiniad o Sipsiwn a Theithwyr a ddarperir yn Neddf Tai (Cymru) i gynnwys cyfeiriad at Siewmyn Teithiol. Hefyd, mae'n adlewyrchu cyngor a geir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar wersylla diawdurdod a gyhoeddwyd yn 2013. Felly, yn ogystal â disodli'r cyngor ar Siewmyn Teithiol a geir yng Nghylchlythyr 30/07 (Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr), mae hefyd yn disodli'r cyngor ar Siewmyn Teithiol a geir yng Nghylchlythyr 78/91 a'r cyngor ar wersylla diawdurdod gan gymunedau Sipsiwn a Theithwyr a geir yng Nghylchlythyr 76/94. Mae Cylchlythyron 78/91, 76/94 a 30/07 wedi'u diddymu o ganlyniad.

## 3 Cynigion allweddol

3.1 Mae'r cyngor manwl yn y Cylchlythyr newydd yn rhoi gwybodaeth am sut y gallai gweithio rhanbarthol fod o gymorth wrth ddarparu safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn. Mae hefyd yn diweddaru gwybodaeth ffeithiol arall sydd wedi newid ers cyhoeddi Cylchlythyr 30/07. Er enghraifft, cyfeiriadau at sefydliadau y dylid ymgynghori â hwy wrth gynllunio ar gyfer llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn.

3.2 Roedd y prif gynigion ar gyfer canllawiau polisi cynllunio a ddarperir yn fersiwn ymgynghori ddrafft y Cylchlythyr fel a ganlyn:

**Roedd y Cylchlythyr drafft yn rhoi manylion am y ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n pennu ym mha gyd-destun y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu safleoedd a llety priodol i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr.**

- Roedd y Cylchlythyr drafft yn rhoi gwybodaeth am y diffiniad diwygiedig o 'Sipsiwn a Theithwyr' fel y nodir yn Neddf Tai (Cymru). Mae'r diffiniad a roddir yn gyson â'r hwnnw a ddefnyddir gan bob awdurdod lleol er mwyn asesu anghenion o ran llety yn rhan o'r gofyniad i lunio Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer ei ardal.
- Roedd y Cylchlythyr drafft yn rhoi gwybodaeth ar ddiweddariadau diweddar i ddeddfwriaeth a chanllawiau yn arbennig. Er enghraifft, roedd yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a geir yn Neddf Tai (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Yn ogystal â hyn, roedd yn cyfeirio at ganllawiau a geir yn fframwaith gweithredu Llywodraeth Cymru 'Teithio at Ddyfodol Gwell' mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr.

**Roedd y Cylchlythyr drafft yn rhoi gwybodaeth am sut y dylai awdurdodau lleol ddefnyddio canfyddiadau eu Hasesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i lywio'r gwaith o ddarparu safleoedd priodol, yn rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol.**

- Roedd y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd ar sut y dylai proses y Cynllun Datblygu Lleol gyd-fynd â gofynion Deddf Tai (Cymru), sef bod awdurdodau lleol yn diwallu'r anghenion yn eu hardaloedd am lety Sipsiwn a Theithwyr drwy ddarparu safleoedd priodol ar gyfer eu cymunedau. Yn arbennig, roedd yn rhoi cyfarwyddyd i bob awdurdod lleol ar sut y dylent ddefnyddio canfyddiadau eu Hasesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i lywio'r broses o ddarparu safleoedd yn ystod gwaith cynllunio, monitro ac adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.

**Roedd y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd ar sut y gallai awdurdodau lleol weithio'n gydweithredol i nodi'r angen am lety Sipsiwn a Theithwyr a dyrannu safleoedd yn eu cynlluniau datblygu.**

- Roedd y Cylchlythyr drafft yn rhoi gwybodaeth newydd am yr amgylchiadau pan fyddai gweithio rhanbarthol yn fuddiol er mwyn darparu ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr priodol drwy'r broses gynllunio. Roedd yn disgrifio'n fanwl yr amgylchiadau pan all awdurdodau lleol weithio'n gydweithredol i baratoi Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Roedd hefyd yn rhoi manylion am sut y caiff awdurdodau lleol unigol ddefnyddio'r wybodaeth hon i nodi angen a dyrannu llety i Sipsiwn a Theithwyr mewn safleoedd addas o fewn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

**Roedd y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau cynllunio ar sut y dylent ddyrannu safleoedd ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr drwy broses y Cynllun Datblygu Lleol.**

- Roedd y Cylchlythyr drafft yn diweddaru'r wybodaeth am sut y dylai awdurdodau cynllunio geisio dyrannu safleoedd ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr drwy broses y Cynllun Datblygu Lleol. Yn arbennig, atgyfnerthwyd y meini prawf ar gyfer gwasanaethau y dylid eu hystyried wrth nodi safleoedd ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr, o'u cymharu â'r rheiny a oedd wedi'u cynnwys yng Nghylchlythyr 30/2007. Hefyd, roedd y ddogfen yn cyfeirio at ganllawiau diweddar Llywodraeth Cymru y dylai awdurdodau cynllunio eu hystyried wrth ystyried safleoedd i'w dyrannu fel safleoedd Sipsiwn a Theithwyr o fewn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

**Roedd y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd ar pryd y dylai awdurdodau lleol ystyried darparu safleoedd tramwy neu leoedd aros dros dro yn eu hardaloedd.**

- Roedd y Cylchlythyr drafft yn diweddaru cyfarwyddyd ar sut y dylai awdurdodau lleol ystyried gwersylla diawdurdod yn eu hardaloedd, gan gyfeirio at ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn arbennig, nododd o dan ba amgylchiadau y dylai awdurdodau lleol ystyried darparu lleoedd aros dros dro.

**Roedd y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau cynllunio ar pryd y gallant gynnwys polisi 'safleoedd wedi'u heithrio' ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.**

- Roedd y Cylchlythyr drafft yn diweddaru o dan ba amgylchiadau y caiff awdurdodau cynllunio ystyried cynnwys polisi 'safle wedi'i eithrio' ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Roedd yn ehangu ar yr amgylchiadau pan fyddai modd defnyddio'r polisi hwn, fel nad yw'r polisi yn berthnasol i ardaloedd gwledig yn unig. Diben hyn oedd cydnabod y ffaith y gallai bod angen lleol i ryddhau tir ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr mewn ardaloedd trefol weithiau oherwydd diffyg safleoedd. Yn dilyn sylwadau a gafwyd ar y Cylchlythyr drafft, mae'r gofyniad polisi hwn wedi'i ddileu oherwydd y rhesymau hynny a drafodir yng Nghwestiwn 7 yr adroddiad cryno hwn.

**Roedd y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau cynllunio ar faterion y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar gynigion ar gyfer safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr.**

- Roedd y Cylchlythyr drafft yn diweddaru'r wybodaeth a ddarparwyd ar y weithdrefn yr oedd awdurdodau lleol yn ei defnyddio i ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys enghreifftiau o amodau neu rwymedigaethau cynllunio posibl. Ystyried ei bod yn angenrheidiol diweddaru'r wybodaeth er mwyn rhoi cyfarwyddyd mwy perthnasol a chadarn i awdurdodau lleol ei ystyried wrth benderfynu ar gynigion ar gyfer safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr.

**Roedd y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau cynllunio ar yr amrywiaeth o offer y gellir eu defnyddio er mwyn cymryd camau gorfodi effeithiol yn erbyn datblygiadau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod.**

- Roedd y Cylchlythyr drafft yn diweddaru'r wybodaeth a roddir ar weithdrefnau gorfodi mewn perthynas â datblygiadau safle Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod. Roedd yn cynnwys cyfeiriadau at newidiadau deddfwriaethol i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sydd wedi cynyddu'r amrywiaeth o offer y gall awdurdodau cynllunio eu defnyddio er mwyn cymryd camau gorfodi effeithiol. Hefyd, rhoddwyd gwybodaeth newydd am yr amgylchiadau pan all awdurdod cynllunio gyflwyno hysbysiad stop dros dro er mwyn atal ar unwaith unrhyw ddatblygiad pellach ar dir at ddibenion ei wneud yn safle Sipsiwn a Theithwyr.

**Roedd y Cylchlythyr drafft yn rhoi gwybodaeth a chyfarwyddyd ar apeliadau a sut y dylai awdurdodau cynllunio roi sylw dyledus i hawliau dynol a chyfle cyfartal wrth wneud penderfyniadau ar gynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.**

- Roedd y Cylchlythyr drafft yn diweddaru'r wybodaeth ar y ffactorau y bydd Arolygydd Cynllunio yn eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar apeliadau o ran safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr. Hefyd, roedd yn diweddaru ystyriaethau hawliau dynol a chydraddoldeb y dylai awdurdodau cynllunio roi sylw iddynt wrth wneud penderfyniadau ar safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr, gan gyfeirio at Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010 yn y cyd-destun hwn.

**Roedd y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau cynllunio ar fonitro ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.**

- Roedd y Cylchlythyr drafft yn rhoi mwy o eglurder ar y broses y gall awdurdodau cynllunio ei dilyn wrth fonitro'r ceisiadau cynllunio a ddaw ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Yn arbennig, roedd yn rhoi cyfarwyddyd ar sut y gellir defnyddio'r data hynny a gesglir i lywio Cynlluniau Datblygu Lleol.

**Roedd y Cylchlythyr drafft yn rhoi gwybodaeth am ystyriaethau ychwanegol sy'n bwysig i awdurdodau lleol yn ystod y broses o ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.**

- Roedd y Cylchlythyr drafft yn diweddaru gwybodaeth yn yr Atodiadau o'u cymharu ag Atodiadau Cylchlythyr 30/07. Yn arbennig, roedd yn gwneud cyfeiriadau newydd at ddogfennau a sefydliadau a allai fod o ddiddordeb i Sipsiwn a Theithwyr yn Atodiad A. Roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am feini prawf ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr y byddai'n annerbyniol eu cynnwys yn y cynlluniau datblygu.

## 4 Ymgynghori a chyhoeddusrwydd

4.1 Cyhoeddwyd y Cylchlythyr Drafft: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn gan Lywodraeth Cymru ar 27 Chwefror 2017 am gyfnod ymgynghori o 12 wythnos.

4.2 Cyhoeddwyd manylion yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal rhestr o randdeiliaid sefydledig yn y system gynllunio a chafodd y rhain i gyd wybod am yr ymgynghoriad drwy e-bost uniongyrchol ar 27 Chwefror 2017. Mae'r rhestr rhanddeiliaid yn cynnwys Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion Cynllunio'r 25 o awdurdodau cynllunio, 23 o ymgyngoreion statudol a 101 o ymgyngoreion anstatudol.

4.3 Hefyd, bu swyddogion cynllunio yn gweithio gyda swyddogion cydraddoldeb i gael rhestr o randdeiliaid allweddol o ran Sipsiwn a Theithwyr. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys cyrff ac unigolion â diddordeb penodol mewn materion yn ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr (er enghraifft, yr heddlu a sefydliadau Sipsiwn a Theithwyr) a chawsant wybod am yr ymgynghoriad ar 27 Chwefror 2017.

## 5 Yr ymatebion

5.1 Daeth cyfanswm o 40 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law. O'u rhannu yn ôl mathau o ymatebwyr, daeth y nifer mwyaf o ymatebion gan awdurdodau cynllunio, a oedd wedi cyflwyno 35% o gyfanswm yr ymatebion a gafwyd. Roedd cyfanswm o 13 o'r 22 o awdurdodau cynllunio yng Nghymru wedi ymateb ac roedd y 3 awdurdod parc cenedlaethol â phwerau cynllunio wedi darparu ymateb cyfun.

5.2 Roedd asiantaethau'r llywodraeth a chyrff eraill y sector cyhoeddus wedi cyflwyno 30% o'r ymatebion. Daeth sylwadau i law gan sefydliadau megis cynghorau tref, Heddlu De Cymru, pwyllgor ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Network Rail a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

5.3 Roedd y sector gwirfoddol, busnesau a grwpiau a oedd yn cyfrif eu hunain fel 'eraill' oll yn cyfrif am 10% o'r ymatebwyr. Ymysg y sefydliadau gwirfoddol a ymatebodd, roedd Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, Cymorth Cynllunio Cymru, Travelling Ahead a chymdeithas preswylwyr. Ymysg y busnesau (10%) a ymatebodd, roedd Dŵr Cymru. Roedd grwpiau a oedd yn cyfrif eu hunain fel 'eraill' (10%) yn cynnwys unigolion â diddordeb personol neu broffesiynol mewn cymunedau Sipsiwn a Theithwyr a'r system gynllunio.

5.4 Roedd cyrff proffesiynol a grwpiau buddiant yn cyfrif am 5% o’r ymatebwyr. Darparwyd ymatebion gan y sefydliadau hyn gan Gymdeithas y Cyfreithwyr a’r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol.

5.5 Gellir gweld dadansoddiad cyflawn o’r rhanddeiliaid a ymatebodd yn yr Atodiad.

**Cwestiwn 1:**

**A ydych yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi gwybodaeth briodol am y ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n pennu ym mha gyd-destun y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu safleoedd a llety priodol i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Sefydliadau Busnes | 2 | 0 | 1 |
| Awdurdodau Cynllunio | 8 | 2 | 4 |
| Asiantaethau'r Llywodraeth neu Gyrff Eraill y Sector Cyhoeddus | 3 | 0 | 6 |
| Cyrff Proffesiynol neu Grwpiau â Buddiant | 1 | 0 | 0 |
| Y Sector Gwirfoddol | 3 | 0 | 1 |
| Arall | 1 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **18** | **3** | **14** |
| % | **51.4%** | **8.6%** | **40.0%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Roedd oddeutu hanner yr ymatebwyr hynny a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (51.4%) yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi gwybodaeth briodol am y ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n pennu ym mha gyd-destun y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu safleoedd a llety priodol i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Roedd cyfran fach o'r ymatebwyr (8.6%) yn anghytuno bod y Cylchlythyr yn rhoi gwybodaeth briodol.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cefnogi'r ymagwedd, gan gynnwys sylwadau ei fod yn atgyfnerthu deddfwriaeth bresennol sy'n diffinio Sipsiwn a Theithwyr, fel y'i nodir yn Neddf Tai (Cymru) 2014.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad yw'r diffiniad o Sipsiwn a Theithwyr fel y'i rhagnodir o dan Ddeddf 2014 ac y'i nodir yn y Cylchlythyr yn rhoi digon o eglurder, yn arbennig am grwpiau penodol o Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn ac ystyr 'traddodiad diwylliannol o nomadiaeth' wrth ddiffinio cymunedau o'r fath.

Gwnaeth ymatebwyr eraill sylwadau ar faterion amrywiol yn ymwneud â darparu safleoedd, gan gynnwys goblygiadau adnoddau, rôl personau penodol a mesurau megis dod o hyd i grantiau yn y broses hon a phryderon am ailddosbarthu Parciau Cartrefi Symudol er mwyn darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r Cylchlythyr yn gyson â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer darparu safleoedd a llety Sipsiwn a Theithwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr ymholiadau a godwyd yng nghyd-destun diffinio Sipsiwn a Theithwyr, yn arbennig pan fo'r Cylchlythyr yn cyfeirio at 'draddodiad diwylliannol o nomadiaeth'. Mae'r geiriad ar draddodiad diwylliannol a nomadiaeth wedi'i dynnu o ddeddfwriaeth bresennol sy'n rhoi diffiniad o Sipsiwn a Theithwyr, sef adran 108 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r Cylchlythyr yn rhoi gwybodaeth sy'n cadarnhau bod arfer bywyd nomadaidd yn rhywbeth a all fod yn barhaus neu beidio. Felly, gallai'r ffordd y caiff y traddodiad diwylliannol hwnnw a'r nomadiaeth ei harfer ar gyfer diffinio Sipsiwn a Theithwyr amrywio yn ôl achosion unigol. Yn ogystal â hyn, mae'r Cylchlythyr yn glir y byddai'r diffiniad o Sipsiwn a Theithwyr yn cynnwys yr unigolion hynny o unrhyw grŵp ethnig sy'n arfer ffordd o fyw nomadaidd. Gallai hyn gynnwys grwpiau Cymreig, Albanaidd neu grwpiau eraill o deithwyr.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau a ddaeth i law ar amryw faterion yn ymwneud â darparu safleoedd. Yn gyntaf oll, dylid nodi mai swyddogaeth y Cylchlythyr yw rhoi cyfarwyddyd ar sut y dylid darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr drwy'r system gynllunio. Mae materion eraill a nodwyd, megis goblygiadau ariannu, y tu allan i gylch gwaith y Cylchlythyr. Hefyd, pan fo hynny'n ymarferol, darperir gwybodaeth ar y cyfryw faterion yn briodol mewn man arall. Er enghraifft, darparodd Llywodraeth Cymru nodyn cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ar sut i wneud cais am Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer y cyfnod 2017/2018. O ran rhai pryderon a godwyd ar ailddosbarthu Parciau Cartrefi Symudol er mwyn darparu safleoedd, caiff safleoedd cartrefi symudol presennol eu diogelu o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

**Cwestiwn 2:**

**A ydych yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi gwybodaeth briodol am bob math o safle yr ystyrir ei fod yn 'Safle Sipsiwn a Theithwyr' o dan ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredol?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Sefydliadau Busnes | 1 | 0 | 2 |
| Awdurdodau Cynllunio | 5 | 6 | 3 |
| Asiantaethau'r Llywodraeth neu Gyrff Eraill y Sector Cyhoeddus | 3 | 0 | 6 |
| Cyrff Proffesiynol neu Grwpiau â Buddiant | 1 | 0 | 1 |
| Y Sector Gwirfoddol | 0 | 3 | 0 |
| Arall | 1 | 2 | 1 |
| **Cyfanswm** | **11** | **11** | **13** |
| **%** | **31.4%** | **31.4%** | **37.1%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Roedd yr un nifer o ymatebwyr a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn yn cytuno ac yn anghytuno (31.4%) bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi gwybodaeth briodol ar bob math o safle yr ystyrir ei fod yn 'Safle Sipsiwn a Theithwyr' o dan ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredol.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod angen mwy o gyfarwyddyd ar gynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preifat yn y ddogfen, gan eu bod yn ystyried bod y ddogfen yn canolbwyntio ar ddarpariaeth safleoedd dan berchenogaeth awdurdodau lleol yn unig.

Yn ogystal â hyn, roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod angen mwy o gyfarwyddyd ac eglurder ar ddarparu safleoedd sy'n diwallu anghenion grwpiau penodol o Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys cyfeirio at Siewmyn Teithiol a Theithwyr Newydd yn y cyd-destun hwn.

Gofynnodd ambell un o'r ymatebwyr am eglurder ar y diffiniad o'r term 'safle', a chodwyd cwestiynau am ba un a fyddai'n cynnwys annedd ai peidio.

O dan y cwestiwn hwn, gofynnodd ymatebwyr eraill am eglurder neu wybodaeth am amryw faterion yn ymwneud â darparu safleoedd, gan gynnwys arfarnu'r gwahanol fathau o safleoedd a ganiateir yng Nghymru, arian grant ac angorfeydd ar ddyfrffyrdd i Sipsiwn a Theithwyr.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r Cylchlythyr yn rhoi cyfarwyddyd i gynorthwyo awdurdodau cynllunio i gynllunio ar gyfer darparu safleoedd cynaliadwy ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, boed yn safleoedd dan berchenogaeth breifat neu safleoedd dan berchenogaeth awdurdodau lleol. Mae'r math o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ddarperir mewn ardal yn fater lleol ac ni ddylai Cylchlythyr cynllunio eu gwahaniaethu. Ar hyn o bryd, mae Canllawiau Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr[1] Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth yn ymwneud â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol yn unig, ac mae'r Safonau Enghreifftiol ar gyfer Safleoedd Carafanau 2008 yn ymdrin â safonau safleoedd preifat. Rhoddwyd eglurhad ar ble y gellir dod o hyd i'r safonau ar gyfer safleoedd preifat o dan adran 'Ceisiadau Cynllunio' y Cylchlythyr. Ystyrir cynnwys rhagor o wybodaeth ar ddylunio safleoedd preifat yn rhan o'r adolygiad o'r Canllawiau Dylunio Safleoedd, y bwriedir ei gynnal yn 2020. Ystyrir nad yw ymdrin â cheisiadau am eglurder o fewn y Cylchlythyr ar ba fathau o safleoedd y mae'r Canllawiau Dylunio Safleoedd yn berthnasol iddynt yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r Cylchlythyr at y dyfodol yng ngoleuni unrhyw adolygiad o ganllawiau sydd ar y gorwel.

O ran rhoi cyfarwyddyd ar ddarparu safleoedd sy'n diwallu anghenion grwpiau penodol o Sipsiwn a Theithwyr, fe ymdriniwyd â hyn lle bo hynny'n bosibl. Yn arbennig, mae'r Canllawiau Dylunio Safleoedd yn rhoi gwybodaeth ar ddylunio safleoedd ar gyfer grwpiau o deithwyr megis Siewmyn Teithiol, a rhoddwyd mwy o gyfeiriadau at y ddogfen hon yn y Cylchlythyr. Ar hyn o bryd, ni cheir digon o wybodaeth am arferion gorau o ran canllawiau dylunio ar gyfer safleoedd Teithwyr Newydd, ond cynhelir rhagor o waith ymgysylltu â'r gymuned hon drwy brosesau dylunio awdurdodau lleol o ran safleoedd sydd ar y gweill, ac adolygiad nesaf Llywodraeth Cymru o ganllawiau Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, a fydd yn llywio unrhyw ofynion am ganllawiau ychwanegol.

Nid yw'r diffiniad o 'safle' yn y Cylchlythyr yn cynnwys annedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen eglurder ar y mater hwn, ac mae hynny wedi'i ddarparu yn y Cylchlythyr.

Ystyriwyd y sylwadau a ddaeth i law ar amryw faterion yn ymwneud â darparu safleoedd, ac aethpwyd i'r afael â nhw pan fo hynny'n bosibl, gan gynnwys rhoi mwy o gyfeiriadau at wybodaeth berthnasol ar ddeddfwriaeth, canllawiau a chyllid grant. Fel arall, ymdrinnir â nhw o dan y cwestiynau eraill (megis gwybodaeth am Leoedd Aros Dros Dro), neu maent yn faterion lleol neu maent yn faterion sydd y tu hwnt i gylch gwaith y Cylchlythyr, sef rhoi cyfarwyddyd ar sut y dylid darparu safleoedd drwy'r system gynllunio.

[1] Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, Llywodraeth Cymru, Mai 2015

**Cwestiwn 3:**

**A ydych yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd priodol i awdurdodau lleol ar sut i ddefnyddio canfyddiadau eu Hasesiadau o Anghenion Llety Sipiwn a Theithwyr i lywio'r broses o ddarparu safleoedd wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol? Os nad ydych yn cytuno, sut y gellir gwella'r cyfarwyddyd hwn?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Sefydliadau Busnes | 2 | 0 | 1 |
| Awdurdodau Cynllunio | 8 | 6 | 0 |
| Asiantaethau'r Llywodraeth neu Gyrff Eraill y Sector Cyhoeddus | 3 | 1 | 5 |
| Cyrff Proffesiynol neu Grwpiau â Buddiant | 1 | 0 | 1 |
| Y Sector Gwirfoddol | 2 | 1 | 1 |
| Arall | 1 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **17** | **9** | **10** |
| **%** | **47.2%** | **25.0%** | **27.8%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Roedd oddeutu hanner yr ymatebwyr hynny a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (47.2%) yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd priodol i awdurdodau lleol ar sut i ddefnyddio canfyddiadau eu Hasesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i lywio'r broses o ddarparu safleoedd wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Roedd chwarter yr ymatebwyr hynny (25%) yn anghytuno â'r datganiad hwn.

Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, gwnaeth ymatebwyr sylwadau ar amrywiaeth eang o faterion, ac nid oedd unrhyw gonsensws clir yn y sylwadau a ddaeth i law. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at faterion yr ymdrinnir â nhw o dan gwestiynau eraill yr ymgynghoriad hwn, megis gweithio rhanbarthol, a drafodir o dan Gwestiwn 4. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr er mwyn llywio'r gwaith o ddarparu safleoedd. Cyfeiriodd ymatebwyr eraill ar faterion unigol o eglurder a gwybodaeth sy'n rhan o'r broses o baratoi Asesiadau o Anghenion Llety ac sy'n hysbysu'r ddarpariaeth o safleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu’n weithredol â’r gymuned Sipsiwn a Theithwyr er mwyn hysbysu’r broses o ddarparu safleoedd yn y cynlluniau datblygu. Ceir canllawiau manwl ar ymgynghoriadau’r cynllun datblygu yn Llawlyfr y Cynllun Datblygu, fel y cyfeirir ato yn y Cylchlythyr. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ‘Cynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr’ (Mai 2015) eisoes yn rhoi gwybodaeth am sut y gall awdurdodau lleol ymgysylltu â Sipsiwn a Theithwyr i lywio asesiad o anghenion llety a darpariaeth safleoedd dilynol ar gyfer eu hardaloedd.

Pan fo ymatebwyr wedi cyfeirio at faterion unigol o eglurder a gwybodaeth sy’n rhan o’r broses o baratoi Asesiadau o Anghenion Llety ac sy’n hysbysu’r ddarpariaeth o safleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol, ymdriniwyd â’r rhain yn y Cylchlythyr pan fo hynny’n bosibl, gan gynnwys drwy egluro termau a chyfeirio’n briodol ar ddogfennau cysylltiedig. Caiff materion eraill a godwyd eu hystyried mewn mannau eraill wrth baratoi ac adolygu canllawiau cysylltiedig. Mae’r adolygiad o Ganllawiau Cynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru yn debygol o gael ei gynnal yn ddiweddarach eleni a bydd yn ystyried materion yn ymwneud â chyfrifo’r anghenion o ran llety yn yr awdurdod lleol.

Mae’r Cylchlythyr yn glir wrth ddatgan y dylai’r holl ddata o’r System Cyfrif Carafanau Cymru Gyfan gael ei ddiweddaru’n rheolaidd er mwyn hysbysu Asesiadau o Anghenion Llety. Dylai’r cyfryw Asesiadau gynnwys cyfrifiadau o angen lywio'r ddarpariaeth o safleoedd mewn cynlluniau datblygu, a dylai’r holl safleoedd a ystyrir ar gyfer eu cynnwys yn y cynlluniau datblygu gael eu hasesu yn unol â gofynion arfarniad cynaliadwyedd. Mater i’r awdurdod unigol yw penderfynu sut yr aiff ati i goladu a monitro data o’r fath a sut y defnyddir canfyddiadau’r Asesiadau i lywio’r broses o ddarparu safleoedd yn y cynllun datblygu. Mater i Weinidogion Cymru fyddai pennu’r canlyniadau pe na byddai awdurdod lleol yn diwallu’r angen a nodir yn ei Asesiad o Anghenion Llety, ac nid yw hyn felly yn rhywbeth y dylid ei ragnodi mewn Cylchlythyr cynllunio.

**Cwestiwn 4:**

**A ydych yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd priodol ar sut y gallai awdurdodau lleol weithio'n gydweithredol i nodi anghenion a dyrannu llety addas i Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol? Os nad ydych yn cytuno, sut y gellir gwella'r cyfarwyddyd hwn?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Sefydliadau Busnes | 1 | 1 | 1 |
| Awdurdodau Cynllunio | 8 | 3 | 3 |
| Asiantaethau'r Llywodraeth neu Gyrff Eraill y Sector Cyhoeddus | 2 | 1 | 6 |
| Cyrff Proffesiynol neu Grwpiau â Buddiant | 1 | 0 | 1 |
| Y Sector Gwirfoddol | 1 | 1 | 0 |
| Arall | 1 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **14** | **7** | **13** |
| **%** | **41.2%** | **20.6%** | **38.2%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Mae mwy na dwy ran o bump o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (41.2%) yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd priodol ar sut y gall awdurdodau lleol weithio'n gydweithredol i nodi anghenion a dyrannu llety addas i Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Roedd oddeutu un rhan o bump (20.6%) o'r ymatebwyr yn anghytuno bod y Cylchlythyr yn rhoi cyfarwyddyd priodol yn y cyd-destun hwn.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn gefnogol o'r cyfarwyddyd hwn ac wedi cyflwyno sylwadau cadarnhaol yn hyn o beth, gan gynnwys datgan ei fod yn gydnaws â chynnydd cyffredinol mewn cydweithio rhwng awdurdodau cynllunio.

Roedd rhai ymatebwyr wedi cwestiynu sut y gallai cydweithio fod yn berthnasol o ran darparu safleoedd tramwy, ac wedi gofyn am fwy o wybodaeth am hyn. Yn arbennig, cwestiynwyd sut y gallai hyn weithio o gofio'r pwerau o dan Adran 62A o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 sy'n cyfyngu'r heddlu i symud tresmaswyr i safle arall o fewn ardal yr un awdurdod lleol yn unig.

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau am weithio rhanbarthol a darparu safleoedd, gan gynnwys awgrymu bod angen darparu ar gyfer hyblygrwydd a dulliau cynllunio defnydd tir megis Cynlluniau Datblygu Strategol yn y broses hon.

Gwnaeth ymatebwyr eraill amrywiaeth o sylwadau a cheisiadau am eglurder ar faterion yn ymwneud â chydweithio wrth nodi anghenion a safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys cyfeirio at oblygiadau adnoddau awdurdodau lleol ac amserlenni ar gyfer cynlluniau datblygu yn effeithio ar gydweithio o'r fath.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Wrth ymateb i'r ymholiadau a godwyd o ran sut y byddai gweithio cydweithredol yn berthnasol o ran darparu safleoedd tramwy Sipsiwn a Theithwyr, cydnabyddir goblygiadau'r ddeddfwriaeth a geir yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fyddai awdurdodau lleol a'r heddlu yn gallu cyfeirio Sipsiwn a Theithwyr i groesi ffiniau awdurdodau lleol, a hynny o ran safleoedd parhaol a safleoedd tramwy fel ei gilydd. Mae'n werth nodi bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo'n ddiweddar i adolygu'r pwerau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y gallai fod yn fuddiol i awdurdodau lleol gydweithio i nodi patrymau symud Sipsiwn a Theithwyr ar draws ffiniau awdurdodau lleol presennol, a allai helpu i nodi ble y gellid lleoli safle tramwy.

Mae'r Cylchlythyr wedi'i ddiweddaru i gadarnhau dulliau cynllunio defnydd tir rhanbarthol megis Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd, a gallai trafodaethau ar Asesiadau unigol o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gynorthwyo a hwyluso'r gwaith o nodi safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r Cylchlythyr wedi'i ddiweddaru ymhellach i danlinellu'r gofyniad bod gwaith a wneir ar lefel ranbarthol yn gorfod cael ei ddadgyfuno i lefel asesiadau awdurdodau lleol unigol o anghenion llety o ran darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ac na ddylid fod unrhyw gyfaddawdu neu gyfnewid o ran safleoedd parhaol rhwng awdurdodau partner. Mae'r gofyniad hwn yn deillio o ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 sy'n rhagnodi bod awdurdodau lleol unigol yn gyfrifol am ddiwallu eu hanghenion eu hunain o ran llety Sipsiwn a Theithwyr. Hefyd, disodlwyd cyfeiriadau penodol at Gynlluniau Datblygu Lleol yn y Cylchlythyr gan y term 'cynlluniau datblygu', er mwyn darparu ar gyfer y posibilrwydd y bydd Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael eu paratoi fel cynlluniau datblygu ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol ledled Cymru yn y dyfodol.

Mae sylwadau eraill a ddaeth i law ar faterion yn ymwneud â chydweithio wedi'u nodi. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y Cylchlythyr yn ddigonol ac yn glir wrth amlygu'r manteision a gynigir i awdurdodau lleol drwy weithio'n gydweithredol i lywio'r gwaith o ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae cyfarwyddyd pellach ar weithio rhanbarthol wrth baratoi Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hefyd wedi'i ddarparu yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (Mai 2015). Mae gan awdurdodau lleol y dystiolaeth a'r arbenigedd i benderfynu ymysg ei gilydd ar sail unigol a chyfunol pryd y dylid cydweithio yn y fath fodd er mwyn sicrhau darpariaeth briodol o safleoedd.

**Cwestiwn 5:**

**A ydych yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd priodol i awdurdodau cynllunio lleol ar sut y dylent ddyrannu safleoedd ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr drwy broses y Cynllun Datblygu Lleol? Os nad ydych yn cytuno, sut y gallai'r cyfarwyddyd hwn gael ei wella?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Sefydliadau Busnes | 2 | 0 | 1 |
| Awdurdodau Cynllunio | 6 | 3 | 5 |
| Asiantaethau'r Llywodraeth neu Gyrff Eraill y Sector Cyhoeddus | 1 | 2 | 6 |
| Cyrff Proffesiynol neu Grwpiau â Buddiant | 1 | 0 | 1 |
| Y Sector Gwirfoddol | 1 | 1 | 1 |
| Arall | 1 | 2 | 1 |
| **Cyfanswm** | **12** | **8** | **15** |
| **%** | **34.3%** | **22.9%** | **42.9%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Roedd mwy na thraean yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn uniongyrchol (34.3%) yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd priodol i awdurdodau cynllunio lleol ar sut y dylent ddyrannu safleoedd ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr drwy broses y Cynllun Datblygu Lleol, tra bod nifer llai o ymatebwyr (22.9%) yn anghytuno bod y Cylchlythyr yn rhoi cyfarwyddyd priodol yn y cyd-destun hwn.

Cafwyd sylwadau amrywiol ar y Cylchlythyr o ran rhoi cyfarwyddyd ar ble y dylid lleoli'r safleoedd. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid rhoi cyfarwyddyd pellach ar y mater hwn, gan gynnwys yr hyn a olygir wrth bod safleoedd yn 'agos at aneddiadau presennol' (fel y pennir ym mharagraff 37) ac o ran mynediad safleoedd at amwynderau lleol. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn na ddylai'r Cylchlythyr fod yn rhy ragnodol er mwyn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd wrth ddyrannu safleoedd.

Gwnaeth ymatebwyr eraill amrywiaeth o sylwadau ar y cwestiwn hwn, yn ymwneud â'r ddarpariaeth o safleoedd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol, yn gofyn am eglurder a rhagor o wybodaeth yn yr achosion hynny. Roedd y sylwadau a ddaeth i law yn hyn o beth yn cynnwys awgrymu'r angen am eglurder ar faterion yn ymwneud â gwersylla diawdurdod, dylunio ac ymgysylltu ar gynigion ar gyfer safleoedd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl sylwadau a ddaeth i law o ran rhoi cyfarwyddyd yn y Cylchlythyr ar ble y dylid lleoli safleoedd. Penderfynwyd mabwysiadu dull dilyniannol o weithredu o ran dewis safleoedd, gan roi ffafriaeth i awdurdodau cynllunio sy'n dyrannu safleoedd o fewn neu gerllaw ffiniau aneddiadau presennol â mynediad at wasanaethau lleol. Mae'r Cylchlythyr yn cynnwys testun wedi'i ddiweddaru sy'n cadarnhau y gellir ystyried safleoedd yng nghefn gwlad, i ffwrdd o aneddiadau eraill, fel safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr os oes diffyg lleoliadau addas o fewn neu gerllaw ffiniau aneddiadau presennol. Ystyrir bod y dull hwn yn rhoi mwy o eglurder i awdurdodau lleol, yn ogystal â mwy o hyblygrwydd wrth bennu ble i leoli safleoedd er mwyn peidio â bod yn rhy ragnodol. Mater i bob awdurdod cynllunio unigol yw pennu mynediad at amwynderau a gwasanaethau lleol, fel y rhoddir sylw dyledus iddo yn y Cylchlythyr, wrth ystyried lleoliadau ar gyfer safleoedd i'w cynnwys mewn cynlluniau datblygu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl sylwadau a ddaeth i law yn gofyn am eglurder a rhagor o wybodaeth am faterion yn ymwneud â darparu safleoedd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae Llywodraeth Cymru ac yn wir y Cylchlythyr yn cydnabod y caiff safleoedd eu darparu drwy'r system Rheoli Datblygu, ond ystyrir y dylai'r Cylchlythyr fod yn glir wrth bwysleisio pwysigrwydd proses y cynllun datblygu, sy'n darparu'r offer priodol i awdurdodau cynllunio gynllunio'n effeithiol ar gyfer darparu safleoedd yn y lle cyntaf. Ar ben hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai mater i'r awdurdod cynllunio yw penderfynu sut y bydd yn nodi safleoedd a pha fethodoleg y byddant yn ei defnyddio i wneud hynny yn ystod y broses o baratoi cynllun datblygu. Yn rhan o'r broses o nodi safleoedd, dylid nodi y bwriedir i'r Cylchlythyr gael ei ddarllen ochr yn ochr â chanllawiau eraill Llywodraeth Cymru ar Sipsiwn a Theithwyr ac ategu polisi cynllunio cenedlaethol ehangach, gan gynnwys Canllawiau ar Ddylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Rhoddwyd rhagor o eglurder ar faterion penodol a godwyd lle bo angen, gan gynnwys o ran terminoleg a chyfeirio at faterion megis dylunio, gwersylla diawdurdod ac ymgysylltu. Caiff materion eraill y cyfeiriwyd atynt eu trafod o dan y cwestiynau eraill lle bo hynny'n berthnasol, megis o ran cydweithio a gweithio rhanbarthol. Fel arall, ystyriwyd na ddylai'r Cylchlythyr gynghori ar rhai o'r sylwadau penodol a godwyd oherwydd ystyriwyd eu bod yn fwy priodol i'w trafod ar lefel leol yn unigol, neu oherwydd nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r system gynllunio ac felly nid ydynt yn briodol i'w cynnwys yn y Cylchlythyr.

**Cwestiwn 6:**

**A ydych yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd priodol i awdurdodau lleol ar ba bryd i ystyried safleoedd tramwy neu leoedd aros dros dro. Os nad ydych yn cytuno, sut y gellir gwella'r cyfarwyddyd hwn?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Sefydliadau Busnes | 1 | 0 | 2 |
| Awdurdodau Cynllunio | 4 | 7 | 3 |
| Asiantaethau'r Llywodraeth neu Gyrff Eraill y Sector Cyhoeddus | 3 | 1 | 4 |
| Cyrff Proffesiynol neu Grwpiau â Buddiant | 1 | 0 | 1 |
| Y Sector Gwirfoddol | 1 | 1 | 0 |
| Arall | 1 | 2 | 1 |
| **Cyfanswm** | **11** | **11** | **11** |
| **%** | **33.3%** | **33.3%** | **33.3%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Roedd yr un nifer o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol yn cytuno ac yn anghytuno (33.3%) bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd priodol i awdurdodau lleol ar ba bryd i ystyried safleoedd tramwy a safleoedd aros dros dro.

Roedd rhai ymatebwyr yn gofyn am fwy o eglurder ar y defnydd o safleoedd o'r mathau hyn, gan gynnwys gofynion diogelwch a lleoliad a hefyd sut y maent yn wahanol i'w gilydd, yn arbennig o ran y cyfnod meddiannu.

Yn ogystal â hyn, gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o eglurhad am y geiriad ym mharagraff 44 o'r Cylchlythyr drafft sy'n datgan y byddai angen safleoedd tramwy pe byddai 'nifer sylweddol o wersylloedd diawdurdod' o fewn ardal awdurdod lleol.

Gwnaeth ymatebwyr eraill amrywiaeth o sylwadau o dan y cwestiwn hwn, gan gynnwys gofyn am eglurder a rhagor o wybodaeth am faterion yn ymwneud â safleoedd tramwy, lleoedd aros dros dro ac ymdrin â gwersylloedd diawdurdod yn gyffredinol. Ymysg y sylwadau a ddaeth i law yn hyn o beth, awgrymwyd angen am eglurder o ran sut y dylai tystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth o Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, lywio'r ddarpariaeth o safleoedd o'r fath.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd i ystyriaeth y sylwadau yn gofyn am fwy o eglurder o ran safleoedd tramwy a lleoedd aros dros dro a'r gwahaniaeth rhyngddynt.

Mae i leoedd aros dros dro wahanol bwrpas i safleoedd tramwy, gan mai eu diben yw helpu awdurdodau lleol pan dderbynnir bod angen am lety mewn safle tramwy ar Sipsiwn a Theithwyr sy'n arfer ffordd o fyw nomadaidd, ond nad oes safleoedd ar gael ar y pryd. Ni ddylid eu hystyried yn ateb parhaol felly. Mae'r Cylchlythyr yn rhoi gwybodaeth am nodi lleoedd aros dros dro ac yn cyfeirio ymhellach at ganllawiau manwl ar ddarparu'r safleoedd hyn, a geir ym Mhennod 7 o ganllawiau Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru. Ni ystyrir bod angen rhoi rhagor o gyfarwyddyd ynghylch am ba hyd y dylid meddiannu'r safleoedd hyn, ac eithrio dweud eu bod yn addas ar gyfer 'meddiannaeth tymor byr', gan y byddai hyn yn ddibynnol ar amgylchiadau lleol o ran mynd i'r afael â'r diffyg angen. Mae'r Cylchlythyr wedi rhoi rhagor o eglurder ar leoedd aros dros dro, gan nodi er y gallant fod o gymorth i awdurdodau lleol, nid ydynt yn ddynodiadau cynllunio ac felly ni ddylid ymdrin â nhw drwy bolisïau dyrannu defnydd tir mewn cynlluniau datblygu.

Mae safleoedd tramwy yn safleoedd parhaol, a ddyluniwyd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n arfer ffordd o fyw normadaidd. Mae'r gofyniad sy'n nodi na cheir meddiannu'r safleoedd hyn am fwy na thri mis wedi'i ragnodi yn Neddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, sydd hefyd yn rhoi'r hawl i feddianwyr lleiniau tramwy gael pedair wythnos o rybudd os yw'r awdurdod yn bwriadu rhoi terfyn ar eu meddiannaeth yn gynnar am ba reswm bynnag. Nid yw hyn yn atal Sipsiwn a Theithwyr rhag symud o safleoedd tramwy yn gynt os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r amserlenni sy'n berthnasol i safleoedd tramwy wedi'u nodi yn y Cylchlythyr drafft o dan y cyfeiriad at safleoedd tramwy yn yr adran 'Nodi Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr'. Ystyrir y gallai'r Cylchlythyr gyfeirio mwy at ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol ar ddarparu safleoedd tramwy, sydd wedi'i ychwanegu fel troednodiadau yn y ddogfen.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y ceisiadau am eglurder ar wersylloedd diawdurdod a'r hyn a olygir wrth 'nifer sylweddol o' y safleoedd hyn wrth benderfynu a oes angen safleoedd tramwy mewn ardal awdurdod lleol. Nid yw gwersylloedd diawdurdod yn ddynodiadau cynllunio a gall eu heffaith amrywio o un awdurdod lleol i'r llall, gan ddibynnu ar nifer y gwersylloedd o'u cymharu â'r boblogaeth, ardal yr awdurdod, darpariaeth gyfredol o safleoedd a ffactorau lleol eraill. Felly, cesglir y dylai awdurdodau lleol benderfynu pa un a oes angen safleoedd tramwy ai peidio os oes yna wersylloedd diawdurdod yn eu hardal. Rhoddir rhagor o fanylion am sut y dylai awdurdodau lleol fynd i'r afael â gwersylloedd diawdurdod yn rhan o ganllawiau Llywodraeth Cymru, Rheoli Gwersylla Diawdurdod 2013. I gydnabod y ffaith y dylai awdurdodau lleol ymdrin â gwersylloedd o'r fath ar sail unigol ac y ceir canllawiau ar wahân ar ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn, mae'r cyfeiriad at 'nifer sylweddol o wersylloedd diawdurdod' wedi'i dynnu o'r Cylchlythyr.

Yn olaf, mae cyfarwyddyd ar faterion ehangach, megis gweithio rhanbarthol ar gyfer darparu safleoedd, eisoes wedi'i ddarparu yn y Cylchlythyr, y dylid ei ddarllen yn ei gyfanrwydd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Cylchlythyr yn datgan yn glir mai'r sail dystiolaeth sy'n deillio o Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol ddylai lywio'r ddarpariaeth o safleoedd, a allai gynnwys safleoedd tramwy neu lleoedd aros dros dro. Ni ellir mynd i'r afael â sylwadau pellach a gafwyd ar faterion penodol yn ymwneud â gwersylloedd diawdurdod yn y Cylchlythyr, gan ei bod yn fwy addas eu hystyried yn unigol ar lefel leol. Serch hyn, dylid nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ariannu rhwydwaith Cymru-gyfan o safleoedd tramwy yn y tymor canolig.

**Cwestiwn 7:**

**A ydych yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd priodol i awdurdodau cynllunio lleol ar yr amgylchiadau pan allant gynnwys polisi 'safleoedd eithriedig' ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr yn eu cynlluniau datblygu lleol? Os nad ydych, sut y gellir gwella neu newid y cyfarwyddyd hwn?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Sefydliadau Busnes | 1 | 0 | 2 |
| Awdurdodau Cynllunio | 5 | 6 | 3 |
| Asiantaethau'r Llywodraeth neu Gyrff Eraill y Sector Cyhoeddus | 2 | 1 | 6 |
| Cyrff Proffesiynol neu Grwpiau â Buddiant | 1 | 0 | 1 |
| Y Sector Gwirfoddol | 1 | 1 | 0 |
| Arall | 0 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **10** | **9** | **14** |
| **%** | **30.3%** | **27.3%** | **42.4%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Mae oddeutu traean o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (30.3%) yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu cyfarwyddyd priodol i awdurdodau cynllunio lleol ar amgylchiadau pan allant gynnwys polisi 'safleoedd eithriedig' ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr yn eu cynlluniau datblygu lleol. Roedd ychydig llai o ymatebwyr (27.3%) yn anghytuno bod y Cylchlythyr yn rhoi cyfarwyddyd priodol ar gynnwys polisi 'safleoedd eithriedig'.

Holodd rhai ymatebwyr ynglŷn â'r gofyniad am bolisi safleoedd eithriedig; yn arbennig gan ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu safleoedd trwy eu cynlluniau datblygu lleol a chynnwys polisi yn seiliedig ar feini prawf yn eu cynlluniau ar gyfer asesu cynigion a gyflwynir ar gyfer safleoedd newydd.

Nododd ymatebwyr eraill sylwadau ehangach a materion yn ymwneud ag eglurdeb o ran y dewis o safleoedd mewn cynlluniau datblygu lleol. Cafwyd sylwadau a oedd yn anghytuno â geiriad y Cylchlythyr ynglŷn â sefydlu safleoedd ar dir anniben ac ynglŷn â pheidio â chefnogi bod yn rhy lym wrth gymhwyso polisïau sy'n ceisio lleihau teithio mewn car pan fo hyn o bosibl yn cael ei ddefnyddio i atal cynigion ar gyfer safleoedd yng nghefn gwlad.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl sylwadau a gyflwynwyd ynglŷn â'r geiriad o ran awdurdodau cynllunio lleol yn cynnwys polisi 'safleoedd eithriedig' ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr yn eu cynlluniau datblygu lleol. Yn sgil y sylwadau a gafwyd ynglŷn â'r mater hwn, gan gynnwys ymholiadau ynglŷn â'r mater ehangach o dderbynioldeb safleoedd gwledig ar gyfer datblygiad fel y trafodir yng Nghwestiwn 13, dilëwyd y gofyniad i awdurdodau cynllunio lleol gynnwys polisi Safleoedd Eithriedig i Sipsiwn a Theithwyr yn eu cynlluniau datblygu lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio fabwysiadu dull dilyniannol wrth ddewis safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn eu cynlluniau datblygu. Mae'r ffafriaeth i ystyried lleoliadau safleoedd o fewn neu'n agos at aneddiadau presennol â mynediad at wasanaethau lleol wedi'i gadw yn y Cylchlythyr, ond yn lle 'agos' nodwyd 'gerllaw' a chyfeirir at 'ffiniau aneddiadau' yn hytrach nag 'aneddiadau' er mwyn helpu i sicrhau eglurdeb yn y dewis o safle. Er mwyn ystyried safleoedd mewn lleoliadau gwledig, mae'r Cylchlythyr wedi'i addasu i gadarnhau y ceir ystyried safleoedd y tu allan i aneddiadau os oes diffyg lleoliadau cynaliadwy addas o fewn neu gerllaw ffiniau aneddiadau presennol. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod yn rhaid efelychu'r dull dilyniannol hwn ar gyfer unrhyw hap-safle a gyflwynir fel ceisiadau cynllunio. Felly, mae testun wedi'i ychwanegu at yr adran 'Ceisiadau Cynllunio' yn y Cylchlythyr sy'n datgan y gellid rhoi caniatâd i ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr y tu allan i ffiniau aneddiadau yn amodol ar feini prawf cynaliadwyedd a nodir yn y polisi cynllunio cenedlaethol os nad oes safleoedd realistig, addas ar gael o fewn ffiniau'r anheddiad neu gerllaw er mwyn darparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr (fel y'u diffinnir o dan adran 108 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014). Ystyrir bod defnyddio'r dull dilyniannol hwn yn rhoi ffordd fwy rhesymegol, clir a syml o bennu sut y dylid ystyried lleoliad wrth benderfynu ar gynigion am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl sylwadau ehangach a gyflwynwyd ynglŷn â dewis safleoedd mewn cynlluniau datblygu lleol. Byddai awdurdodau cynllunio yn penderfynu ar leoliadau derbyniol ar gyfer safleoedd mewn cynlluniau datblygu yn unol â'r dull dilyniannol a'r meini prawf eraill a restrir yn y Cylchlythyr ac yn y polisi cynllunio cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwyntiau a godwyd ynglŷn â'r geiriad ar ddefnyddio tir anniben ac mae'r geiriad hwn wedi'i ddileu o'r Cylchlythyr. Nid fwriedir i eiriad y polisi yn y Cylchlythyr ynglŷn â theithio mewn car fod yn drech nag ystyriaethau priffyrdd wrth ddewis safleoedd. Bwriad y geiriad hwn yw egluro y byddai'n amhriodol i awdurdodau cynllunio ddefnyddio polisïau sy'n ceisio lleihau teithio mewn car mewn modd rhy lym er mwyn atal cynigion am safle Sipsiwn a Theithwyr mewn lleoliad cefn gwlad. Cydnabyddir y gellid tynhau geiriad y polisi ar deithio mewn car er mwyn gwneud y diben yn eglur, ac felly y mae wedi'i ddiwygio'n briodol.

**Cwestiwn 8:**

**A ydych yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd perthnasol i awdurdodau cynllunio lleol ar faterion y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar gynigion am safleoedd ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr? Os nad ydych, sut y gellir gwella'r cyfarwyddyd hwn?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Sefydliadau Busnes | 1 | 1 | 1 |
| Awdurdodau Cynllunio | 5 | 4 | 5 |
| Asiantaethau'r Llywodraeth neu Gyrff Eraill y Sector Cyhoeddus | 1 | 3 | 5 |
| Cyrff Proffesiynol neu Grwpiau â Buddiant | 0 | 0 | 2 |
| Y Sector Gwirfoddol | 1 | 1 | 1 |
| Arall | 0 | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **8** | **11** | **16** |
| **%** | **22.9%** | **31.4%** | **45.7%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Mae oddeutu un rhan o dair o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (31.4%) yn anghytuno â'r datganiad bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd perthnasol i awdurdodau cynllunio lleol ar faterion y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar gynigion safleoedd ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr. I'r gwrthwyneb, roedd ychydig llai o ymatebwyr (22.9%) yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd perthnasol ar y materion hyn.

Cafwyd sylwadau ar yr ystyried angen wrth benderfynu ar geisiadau ac apeliadau yn ymwneud â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys rhai ymatebwyr yn holi am swyddogaeth Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wrth ddarparu tystiolaeth gadarn o ddata i lywio'r broses hon. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r Cylchlythyr ddarparu eglurdeb ynglŷn â sut y mae tystiolaeth o amgylchiadau unigol a statws ymgeisio Sipsiwn a Theithwyr yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Gofynnodd amryw o ymatebwyr am eglurdeb a/neu addasiadau yn y Cylchlythyr ar faterion eraill sy'n ymwneud â phenderfynu ar gynigion safle, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â'r broses ceisiadau cynllunio ac ar ystyriaethau penodol eraill sy'n ymwneud â safleoedd.

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ehangach o ran darpariaeth safleoedd a gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys sylwadau ynglŷn â sut y mae awdurdodau lleol yn ymdrin â materion o'r fath a'r cymorth a roddir i Sipsiwn a Theithwyr yn hyn o beth.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl sylwadau sydd wedi dod i law ynglŷn â'r Cylchlythyr o ran y broses ceisiadau cynllunio ac wedi mynd i'r afael â materion a godwyd lle bo angen. Dylid nodi bod gan awdurdodau cynllunio yr wybodaeth a'r arbenigedd priodol yng nghyd-destun eu hardal leol a'u cymunedau er mwyn cynghori a gwneud penderfyniadau priodol ar gynigion am safleoedd, ac mae'n ofynnol iddynt wneud hynny yn deg ac ar sail eu rhinweddau unigol. Dylid defnyddio'r Cylchlythyr, polisi cynllunio cenedlaethol arall a thystiolaeth leol a geir yn unol â hynny ar bob cynnig yn ystod y broses o wneud penderfyniadau.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y dylid parhau i gyfeirio at y Cylchlythyr fel y brif ffynhonnell o dystiolaeth ym mhob Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol wrth nodi'r angen am safleoedd, a fyddai'n llywio'r ystyriaeth o geisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd. Paratoir Asesiadau o'r fath drwy ddefnyddio methodoleg drylwyr a'i bwriad yw rhoi eglurdeb a sicrwydd ynglŷn â'r angen am lety Sipsiwn a Theithwyr mewn ardal awdurdod lleol. Hefyd, mae dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru, Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (dyddiedig Mai 2015) yn nodi'n glir os oes newid sylweddol yn lefel yr angen mewn ardal wedi newid, y gall awdurdodau lleol ddewis diweddaru eu Hasesiadau. I wneud y safbwynt hwn yn eglur, mae'r testun hwn wedi'i ailadrodd yn y Cylchlythyr. Byddai unrhyw angen uniongyrchol nas diwellir (h.y. galw) a nodir trwy gyflwyno cais cynllunio, megis pan fo Sipsiwn a Theithwyr yn dymuno symud i ardal, yn ystyriaeth yn unol â'r cyfarwyddyd yn y Cylchlythyr ar bolisïau'r cynllun datblygu sy'n seiliedig ar feini prawf. Yn olaf, mae'n debygol y caiff canllawiau Llywodraeth Cymru ar Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr eu diweddaru yn ddiweddarach eleni, a bryd hynny, gall partïon â buddiant gyflwyno'u sylwadau ynglŷn â'r fethodoleg a ddefnyddir gan awdurdodau lleol wrth gyfrifo'r angen am lety a safleoedd yn eu hardaloedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried pa un a ddylai'r Cylchlythyr roi eglurhad ynglŷn â sut y dylai tystiolaeth o amgylchiadau unigol a statws Sipsiwn a Theithwyr o ymgeiswyr gael eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Nodir bod y Cylchlythyr eisoes yn cadarnhau y gall amgylchiadau personol fod yn ystyriaeth wrth benderfynu ar geisiadau, ynghyd ag ystyriaethau eraill, gan gynnwys lefel y ddarpariaeth a'r angen am safleoedd yn yr ardal. Mae'r Cylchlythyr hefyd yn rhoi manylion am y diffiniad cyfreithiol o 'Sipsiwn a Theithwyr', sy'n deillio o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac yn cadarnhau y dylid ystyried hawliau dynol Sipsiwn a Theithwyr wrth benderfynu ar geisiadau, ac y gall awdurdodau lleol gael cyngor cyfreithiol ar faterion o'r fath os oes angen. Yn olaf, mae'r Cylchlythyr yn cynnwys geiriad diwygiedig yn nodi y gellid caniatáu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr y tu allan i ffiniau aneddiadau yn amodol ar feini prawf cynaliadwyedd a nodir mewn polisi cynllunio cenedlaethol os nad oes safleoedd realistig, addas ar gael o fewn ffiniau anheddiad neu gerllaw, ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr (yn unol â'r diffiniad o dan adran 108 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014). Felly, gallai amgylchiadau a statws ymgeiswyr fel Sipsiwn a Theithwyr fod yn rhan o'r sail dystiolaeth a ystyrir wrth benderfynu pa un a oes angen safle neu beidio. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried y dylai amgylchiadau personol gael eu hystyried oni bai bod y ceisiadau yn bersonol, a bod unrhyw ganiatâd dilynol a roddir yn gysylltiedig â'r meddianwyr drwy amod. Felly, mae'r Cylchlythyr wedi'i wneud yn fwy eglur i gadarnhau hyn. Mater i'r cyrff penderfynu yw cymhwyso'r ystyriaethau a restrir yn y Cylchlythyr yn briodol ac asesu'r dystiolaeth fesul achos wrth asesu pa un a ddylid rhoi ystyriaeth briodol i statws ac amgylchiadau ymgeiswyr fel Sipsiwn a Theithwyr wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Ymdriniwyd â cheisiadau am ragor o eglurdeb neu addasiadau o dan y cwestiwn hwn pan ystyriwyd bod eu hangen, gan gynnwys diweddaru'r testun i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i'r dirwedd leol a dynodiadau cadwraeth natur pan wneir cynigion am safleoedd, a rhoi rhagor o wybodaeth am ddefnyddio amodau ac ymrwymiadau cynllunio.

Mae'r sylwadau ehangach a wnaed ynglŷn â darpariaeth safleoedd a gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr wedi'u nodi. Ystyrir bod canllawiau cenedlaethol, deddfwriaeth a dulliau ariannu fel Cyllid Grant Cyfalaf Safleoedd, yn darparu'r offer i fynd i'r afael â'r ddarpariaeth o safleoedd ar lefel leol. O ran cymorth i Sipsiwn a Theithwyr, mae'r Cylchlythyr yn cyfeirio at Gymorth Cynllunio Cymru fel sefydliad a all roi cyngor am ddim ar gyflwyno ceisiadau cynllunio. Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diweddaru'r canllawiau cynllunio hawdd eu darllen ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, a ddylai gynnig rhagor o gymorth i'r cymunedau hyn yn y broses o nodi tir a gwneud cais am ganiatâd cynllunio i ddatblygu safleoedd.

**Cwestiwn 9:**

**A ydych yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd perthnasol i awdurdodau cynllunio lleol ar yr amrywiaeth o offer y gellir eu defnyddio i gymryd camau gorfodi effeithiol yn erbyn datblygiadau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod? Os nad ydych, sut y gellir gwella'r cyfarwyddyd hwn?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Sefydliadau Busnes | 2 | 0 | 1 |
| Awdurdodau Cynllunio | 13 | 1 | 0 |
| Asiantaethau'r Llywodraeth neu Gyrff Eraill y Sector Cyhoeddus | 4 | 0 | 5 |
| Cyrff Proffesiynol neu Grwpiau â Buddiant | 0 | 0 | 1 |
| Y Sector Gwirfoddol | 1 | 1 | 1 |
| Arall | 0 | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **20** | **4** | **10** |
| **%** | **58.8%** | **11.8%** | **29.4%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Roedd dros hanner yr ymatebwr a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (58.8%) yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn rhoi cyfarwyddyd perthnasol i awdurdodau cynllunio lleol ar yr amrywiaeth o offer y gellir eu defnyddio i gymryd camau gorfodi effeithiol yn erbyn datblygiadau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod. Roedd ychydig o ymatebwyr (11.8%) yn anghytuno bod y Cylchlythyr yn rhoi cyfarwyddyd perthnasol ar yr amrywiaeth o offer gorfodi.

Cafwyd nifer o sylwadau cadarnhaol o ran y cyfarwyddyd sydd wedi'i gynnwys yn y Cylchlythyr ar offer gorfodi, gan gynnwys ymatebwyr yn ystyried bod yr arweiniad yn gynhwysfawr ac yn briodol.

Cyflwynodd rhai ymatebwyr sylwadau amrywiol iawn yn ymwneud â chanllawiau a dulliau gorfodi ar gyfer safleoedd diawdurdod. Awgrymodd rhai ymatebwyr bod angen i'r offer gorfodi sydd ar gael i awdurdodau cynllunio gael eu hatgyfnerthu yn hyn o beth, gan gynnwys o ran lefelau digonol o wybodaeth fel nad oes unrhyw berygl o dramgwyddo yn erbyn hawliau dynol Sipsiwn a Theithwyr.

Awgrymodd un ymatebwr fod angen hyfforddiant, yn arbennig ar gyfer Aelodau'r Cyngor, ar y darpariaethau a geir yn y Cylchlythyr.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r sylwadau cadarnhaol a gafwyd gan nifer o ymatebwyr ar y cyfarwyddyd sydd wedi'i gynnwys yn y Cylchlythyr ar ddefnyddio offer gorfodi.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r sylwadau a gafwyd ac yn ystyried bod y cyfarwyddyd gorfodi sydd wedi'i gynnwys yn y Cylchlythyr a'r amryw o offer gorfodi sydd ar gael i awdurdodau cynllunio yn ddigonol er mwyn gallu cymryd camau effeithiol pan fo datblygiadau diawdurdod yn codi. Darparodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddeddfwriaeth i dynhau'r mesurau y caiff awdurdodau lleol eu defnyddio fel camau gorfodi effeithiol, gan gynnwys cyflwyno cyfyngiadau ar hawliau apelio hysbysiad gorfodi. Mae'r Cylchlythyr yn darparu rhywfaint o arweiniad manwl ar Fannau Aros Dros Dro oherwydd ystyrir bod safleoedd o'r fath yn ddefnyddiol wrth atal safleoedd Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod. Hefyd, mae'r Cylchlythyr yn darparu cyfeiriadau priodol i ddulliau a chanllawiau eraill, gan gynnwys Llawlyfr Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am gymryd camau gorfodi. Caiff awdurdodau lleol ddefnyddio'r offer hyn i gyd yn ôl eu disgresiwn wrth benderfynu ar y camau gorfodi priodol i'w cymryd yn erbyn datblygiadau safle diawdurdod. Dylen nhw ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael iddynt i wneud penderfyniadau gwybodus ac maen nhw yn y sefyllfa orau i benderfynu a oes modd iddyn nhw weithio ar y cyd ar faterion o'r fath rhwng eu hadrannau os oes angen gwneud hynny. Hefyd, dylai awdurdodau lleol gael eu cyngor cyfreithiol eu hunain i sicrhau bod y camau y maent yn bwriadu eu cymryd yn cyd-fynd â deddfwriaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Ychwanegwyd cyfeiriad at Ddeddf Cydraddoldeb 2010 at yr adran ynglŷn â Hysbysiadau Aros Dros Dro yn y Cylchlythyr er mwyn pwysleisio cyfrifoldeb awdurdodau cynllunio i ystyried eu dyletswyddau o dan y Ddeddf hon wrth gymryd camau gorfodi. Hefyd, ychwanegwyd cyfeiriad yn y Cylchlythyr at waith cydweithredol rhwng awdurdodau cynllunio ac adrannau eraill yr awdurdod ar faterion gorfodi er mwyn pwysleisio sut y gall gweithio yn y modd hwn fod yn briodol wrth benderfynu ar gamau gorfodi.

Yn olaf, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effeithiolrwydd y Cylchlythyr wrth gynorthwyo awdurdodau lleol i ddiwallu eu hanghenion ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr.

**Cwestiwn 10:**

**A ydych yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu gwybodaeth briodol i awdurdodau cynllunio lleol am fonitro ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr? Os nad ydych, sut y dylid diwygio'r wybodaeth hon?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Sefydliadau Busnes | 2 | 0 | 1 |
| Awdurdodau Cynllunio | 9 | 2 | 3 |
| Asiantaethau'r Llywodraeth neu Gyrff Eraill y Sector Cyhoeddus | 4 | 0 | 5 |
| Cyrff Proffesiynol neu Grwpiau â Buddiant | 1 | 0 | 1 |
| Y Sector Gwirfoddol | 1 | 1 | 0 |
| Arall | 1 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **18** | **4** | **12** |
| **%** | **52.9%** | **11.8%** | **35.3%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Roedd oddeutu hanner yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (52.9%) yn cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu gwybodaeth briodol i awdurdodau cynllunio lleol am fonitro ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Roedd cyfran fach o ymatebwyr (11.8%) o'r farn nad oedd y drafft yn darparu gwybodaeth briodol.

Er y cafwyd cefnogaeth ar gyfer yr adran hon o'r Cylchlythyr ar y cyfan, awgrymodd nifer o ymatebwyr fod angen mwy o eglurdeb ynglŷn â materion sy'n ymwneud ag awdurdodau cynllunio yn monitro ceisiadau, gan gynnwys cysylltiadau â monitro'r cynllun datblygu lleol, gwaith cydweithredol a chyhoeddi data o'r fath a'i fonitro'n genedlaethol.

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ehangach ar sut y caiff safleoedd Sipsiwn a Theithwyr eu monitro yn gyffredinol ac effaith safleoedd ar gymunedau lleol, gan holi democratiaeth leol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y Cylchlythyr ar fonitro ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd yn briodol, gan eu bod yn pwysleisio ac yn ategu canllawiau cynllunio eraill ar fonitro. Mater i bob awdurdod yw sut y mae’n dymuno mynd ati i fonitro ceisiadau, gan gynnwys gwaith cydweithredol, rhannu a chyhoeddi data a defnyddio’r data hwn i lywio eu prosesau monitro cynlluniau datblygu yn flynyddol. Dylid monitro ceisiadau ar lefel yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag anghenion llety a nodir yn eu Hasesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr.

Mewn ymateb i’r sylwadau ehangach a gafwyd, ni ddylid defnyddio system gynllunio a’r Cylchlythyr i fynd i’r afael â monitro safleoedd unigol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar Reoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru yn darparu rhagor o wybodaeth am gynnal a chadw safleoedd a chyfrifoldebau awdurdodau lleol yn y broses hon. Mae’r Cylchlythyr yn hyrwyddo ymgynghori ar gynigion safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, a gynhelir gan awdurdodau cynllunio ac a ddylai gynnwys y gymuned ehangach.

**Cwestiwn 11:**

**A ydych yn cytuno bod yr atodiadau i'r Cylchlythyr drafft yn darparu gwybodaeth briodol am ystyriaethau ychwanegol sydd o bwys i awdurdodau lleol yn ystod y broses o ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr? Os nad ydych, sut y gellir eu diwygio neu eu gwella?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Sefydliadau Busnes | 2 | 0 | 1 |
| Awdurdodau Cynllunio | 6 | 3 | 5 |
| Asiantaethau'r Llywodraeth neu Gyrff Eraill y Sector Cyhoeddus | 2 | 2 | 4 |
| Cyrff Proffesiynol neu Grwpiau â Buddiant | 1 | 0 | 1 |
| Y Sector Gwirfoddol | 1 | 1 | 0 |
| Arall | 1 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **13** | **7** | **13** |
| **%** | **39.4%** | **21.2%** | **39.4%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Mae dros un rhan o dair o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn uniongyrchol (39.4%) yn cytuno bod yr atodiadau i'r Cylchlythyr drafft yn darparu gwybodaeth briodol am ystyriaethau ychwanegol sydd o bwys i awdurdodau lleol yn ystod y broses o ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr. Mae rhyw un ym mhob pump o ymatebwyr (21.2%) yn anghytuno bod yr atodiadau yn darparu gwybodaeth briodol.

Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen eglurdeb ynglŷn ag amryw agweddau ar yr Atodiadau, gan gynnwys gofynion i ddiweddaru manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau y cyfeirir atynt a darparu rhagor o wybodaeth am Sipsiwn a Theithwyr sy'n cyflwyno ceisiadau cynllunio.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid rhoi gwybodaeth am benderfyniadau awdurdodau cynllunio ar geisiadau ôl-weithredol yn Atodiad C oherwydd eu bod o'r farn bod y mwyafrif o'r ceisiadau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a gaiff eu cyflwyno yn rhai ôl-weithredol.

Gwnaeth un ymatebwr sylw penodol ynglŷn â'r cyfarwyddyd a roddir i Sipsiwn a Theithwyr ar wneud ceisiadau cynllunio yn Atodiad D, gan holi i bwy mae'r Atodiad ac a ddylid ei aralleirio ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau a gafwyd ynglŷn â'r Atodiadau a darparu diweddariadau ac eglurdeb pan fo'u hangen, gan gynnwys ynglŷn â'r manylion cyswllt a ddarperir ar gyfer sefydliadau ac i'r testun ynglŷn â Sipsiwn a Theithwyr yn cyflwyno'u ceisiadau cynllunio.

Mewn ymateb i'r sylwadau hynny sy'n gofyn am ragor o wybodaeth am benderfyniadau awdurdodau cynllunio ar geisiadau ôl-weithredol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, dylid prosesu ceisiadau o'r fath yn yr un modd â cheisiadau safonol. Felly, ni ystyrir y dylid gwahaniaethu yn y Cylchlythyr rhwng ceisiadau cynllunio ôl-weithredol a safonol.

Gall cyrff a sefydliadau priodol ddefnyddio Atodiad D i ddarparu cyngor i Gymunedau Sipsiwn a Theithwyr ar sut i gyflwyno'u ceisiadau cynllunio. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diweddaru'r canllawiau cynllunio hawdd eu darllen ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a ddylai rhoi arweiniad defnyddiol i'r cymunedau hyn yn ystod y broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio er mwyn datblygu safleoedd.

**Cwestiwn 12:**

**A ydych yn cytuno bod Cylchlythyr yn darparu'r fformat priodol ar gyfer cyhoeddi'r canllawiau hyn? Os nad ydych, a ddylid eu cyhoeddi ar ffurf Nodyn Cyngor Technegol?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Sefydliadau Busnes | 1 | 0 | 2 |
| Awdurdodau Cynllunio | 7 | 0 | 7 |
| Asiantaethau'r Llywodraeth neu Gyrff Eraill y Sector Cyhoeddus | 3 | 0 | 6 |
| Cyrff Proffesiynol neu Grwpiau â Buddiant | 1 | 0 | 1 |
| Y Sector Gwirfoddol | 0 | 1 | 1 |
| Arall | 1 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **13** | **2** | **19** |
| **%** | **38.2%** | **5.9%** | **55.9%** |

**Dadansoddiad Cryno**

Roedd mwy nag un rhan o dair o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (38.2%) o'r farn bod Cylchlythyr yn fformat priodol i gyhoeddi'r canllawiau hyn. O'r rhai hynny a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol, roedd llai nag un ym mhob deg o ymatebwyr yn anghytuno bod Cylchlythyr yn fformat cyhoeddi priodol.

Ni chafwyd fawr o sylwadau ynglŷn â'r mater hwn. Fodd bynnag, dywedodd y rhai hynny a oedd yn cefnogi cyhoeddi'r canllawiau hyn ar ffurf Cylchlythyr ei bod yn bosibl y caiff Cylchlythyr fwy o sylw ac y bydd yn fwy penodol na Nodyn Cyngor Technegol. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr a nododd bwysigrwydd cyhoeddi'r canllawiau ar ffurf nodyn cyngor technegol bwysigrwydd cynnwys polisi yn y ddogfen a'r angen i ddarparu eglurdeb yn benodol ynglŷn â'r cysylltiad â nodau cyngor technegol presennol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion a gafwyd ac yn nodi bod yr ymatebion yn dangos bod mwy o ymatebwyr o blaid y canllawiau yn parhau ar ffurf Cylchlythyr. Mae Nodau Cyngor Technegol yn darparu cyngor ar faterion polisi yn unig. Ar ôl adolygu cynnwys y canllawiau, mae yn darparu gwybodaeth am faterion gweithdrefnol ynglŷn â cheisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Diben Cylchlythyron Cynllunio Llywodraeth Cymru yw trafod materion gweithdrefnol a gallan nhw fod yn hollbwysig mewn penderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol. Felly, yn sgil yr ymatebion a gafwyd, a chynnwys y canllawiau terfynol, ystyrir ei bod yn briodol eu cyhoeddi ar ffurf Cylchlythyr.

**Cwestiwn 13:**

**Rydym ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u trafod, rhowch wybod i ni.**

Codwyd materion eraill nad ydynt wedi'u trafod yn yr adrannau blaenorol gan nifer o'r ymatebwyr. Mae'n bosibl bod y materion hyn yn cynnwys themâu trawsbynciol mewn ymatebion i nifer o'r cwestiynau neu wedi'u codi'n uniongyrchol o dan Gwestiwn 13, a chânt eu crynhoi felly isod:

- Cafwyd nifer o sylwadau o dan Gwestiwn 13 yn mynegi cefnogaeth gyffredinol i'r Cylchlythyr neu rannau ohono.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen eglurdeb yn y Cylchlythyr ynglŷn ag amryw o ystyriaethau cynllunio yr oedden nhw o'r farn y dylai awdurdodau cynllunio eu hystyried yn ystod y broses o ddyrannu safleoedd mewn cynlluniau datblygu lleol a/neu benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Ymhlith yr ystyriaethau a nodwyd yn hyn o beth oedd mynediad, amwynder, peryglon, cyfleustodau gan gynnwys cael gwared â charthffosiaeth a gwaith draenio, yr amgylchedd, cynllunio i atal troseddu, effeithiau datblygiad ar gymunedau preswyl presennol ac ymgynghori â chyrff perthnasol ar rai o'r materion penodol hyn.
- Dywedodd rhai ymatebwyr am y diffyg cyfarwyddyd ar amgylchiadau pan ellid defnyddio caniatâd cynllunio dros dro ar gyfer safleoedd, fel y trafodir yn y Cylchlythyr 30/2007 Sipsiwn a Theithwyr blaenorol.
- Cododd rhai ymatebwyr sylwadau ynglŷn â datblygu safleoedd gwledig, gan awgrymu yn arbennig y dylid cadw'r geiriad sydd wedi'i gynnwys yng Nghylchlythyr 30/2007 ynglŷn â safleoedd gwledig sy'n dderbyniol ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr.
- Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ynglŷn â'r meini prawf arfer da a nodir yn Atodiad B. Yn arbennig, cafwyd anghytuno ynglŷn â throthwy 20 o leiniau ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.
- Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ynglŷn â'r diffyg ymgynghori â Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned ehangach gan awdurdodau lleol ar angen a chynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.
- Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurdeb ynglŷn ag awdurdodau cynllunio yn codi am gyngor cyn gwneud cais ar gynigion safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.
- Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau a gofyn am eglurdeb ynglŷn â'r geiriad yn y Cylchlythyr ar gysylltiad lleol. Gofynnwyd sut y dylai fod yn berthnasol o ran ystyried ceisiadau cynllunio, gan gynnwys y rhai y tu mewn a'r tu allan i ffiniau aneddiadau, a hefyd sut y mae'n cysylltu â'r angen lleol a nodir yn rhan o Asesiad awdurdod o Lety Sipsiwn a Theithwyr.

- Roedd rhai ymatebwyr o’r farn y gellid darparu cyfarwyddyd ‘arfer gorau’ ychwanegol ac enghreifftiau o ddefnyddio Asesiadau o Lety a datblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.
- Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ynglŷn ag ymgynghori â sefydliadau a chyrff penodol ar Sipsiwn a Theithwyr a materion cynllunio, gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned.
- Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ynglŷn â materion rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys cyfrifoldebau ac ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ynglŷn â materion Hawliau Dynol a Chyfleoedd Cyfartal. Yn y cyd-destun hwn, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ystyried plant wrth ddarparu safleoedd.
- Holodd rhai ymatebwyr ynglŷn â chyfeirio at gynlluniau datblygu lleol yn y Cylchlythyr yng nghyd-destun darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys un ymatebwr yn nodi y dylai polisïau cynllun datblygu lleol wedi’u seilio ar feini prawf ar gyfer safleoedd fod yn ddewis, oherwydd gellir defnyddio polisïau rheoli datblygiad cyffredinol i wneud penderfyniadau ar geisiadau.
- Gwnaeth un ymatebwr sylw ar yr adran apelio o’r Cylchlythyr, gan ystyried y dylid egluro y dylai ymdrin â’r holl ystyriaethau perthnasol ar gyfer cynnig safle ar y cam gwneud cais cynllunio.
- Roedd un ymatebwr o’r farn y dylai’r Cylchlythyr roi gwybodaeth am y data y gellir ei rannu rhwng adrannau’r Cyngor ynglŷn â Sipsiwn a Theithwyr er mwyn osgoi dyblygu gwaith.
- Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at faterion penodol eraill, gan gynnwys rheoli cyrff y sector cyhoeddus; darparu safleoedd lleol mewn ardal benodol; cael caniatâd neu drwyddedau ehangach ac eithrio cynllunio; a chyfarwyddyd ar gyfrifoldebau’r gymuned sefydledig o ran darparu safleoedd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

- **Cyfeiriadau yn y Cylchlythyr at amryw o ystyriaethau cynllunio ar gyfer darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.** Mae'r adran o'r Cylchlythyr ynglŷn â Nodi Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn sôn am ystyriaethau y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddarparu safleoedd. Nid bwriad y rhestr o ystyriaethau sydd wedi'u nodi'n arbennig ym mharagraff 36 o'r Cylchlythyr drafft yw bod yn ddiffiniol nac yn gynhwysfawr. Cyfrifoldeb pob awdurdod cynllunio yw ystyried sut y bydd yr ystyriaethau hyn a pholisi cynllunio cenedlaethol eraill yn berthnasol fel y bo'n briodol wrth benderfynu ar gynigion safle ar gyfer eu hardal benodol. Er eglurdeb, mae geiriad wedi'i ychwanegu at y Cylchlythyr er mwyn cadarnhau y dylai'r ystyriaethau a restrir gael eu hystyried ochr yn ochr â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ailymweld â'r ystyriaethau sydd wedi'u rhestru a'u diweddaru fel y bo'n briodol, yn arbennig yn sgil y meini prawf a nodir yng Nghylchlythyr 30/2007. Nid oes cyfeiriad at 'ddifrod amgylcheddol posibl yn sgil gwersylla diawdurdod' fel sydd wedi'i gynnwys yng Nghylchlythyr 30/2007, oherwydd ystyrir y dylai pwyslais y Cylchlythyr newydd fod i annog darpariaeth safleoedd sydd wedi'u cynllunio'n briodol. Byddai ystyriaethau eraill yn cael eu trafod wrth i awdurdodau cynllunio gynnal ymgynghoriad statudol â chyrff megis darparwyr cyfleustodau pan fyddai cynigion yn arwain at effaith berthnasol.
- **Caniatâd cynllunio dros dro.** Mae amgylchiadau wedi symud erbyn hyn o'r cyfarwyddyd sydd wedi'i gynnwys yng Nghylchlythyr 30/2007 oherwydd ei bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru asesu ei anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi mabwysiadu cynlluniau datblygu lleol. Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai awdurdodau lleol roi caniatâd dros dro yn unig i safleoedd Sipsiwn a Theithwyr dan amgylchiadau eithriadol oherwydd byddan nhw wedi nodi eu hanghenion yn glir ar gyfer llety. Dylid diwallu'r angen hwn trwy roi caniatâd cynllunio llawn ar gyfer safleoedd.
- **Datblygu safleoedd gwledig.** Gweler yr ymateb i bolisi safleoedd eithriedig yng Nghwestiwn 7.

- **Meini prawf Atodiad B.** Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r meini prawf arfer da yn Atodiad B yn sgil y sylwadau a gafwyd ac ystyrir bod y meini prawf hyn yn parhau i fod yn dderbyniol. Mae'r trothwy o 20 o leiniau ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr fel y nodir yn yr Atodiad hwn yn gyson â'r trothwy a nodir yng nghanllawiau Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr[2]. Pennwyd y trothwy yn dilyn cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu. Ystyrir ei fod yn arfer da felly nid bod yn rhagnodol yw ei fwriad. Mae'n rhoi hyblygrwydd ar gyfer safleoedd llai ac estyniadau i safleoedd o dan yr amgylchiadau pan allai fod poblogaeth fawr o Sipsiwn a Theithwyr ac awydd yn y gymuned i gadw'r teuluoedd hynny gyda'i gilydd. Er yr ystyrir bod y trothwy yn parhau i fod yn dderbyniol, mae'r cyfeiriad ato wedi'i ddileu o'r Cylchlythyr a chyfeiriwyd yn hytrach at y canllawiau Dylunio Safleoedd. Mae hyn er mwyn diogelu'r Cylchlythyr ar gyfer y dyfodol mewn ymateb i unrhyw ddiweddariadau yn y dyfodol i'r canllawiau Dylunio Safleoedd. Mae cyfeiriadau yn yr Atodiad yn cyfeirio at ganllawiau perthnasol y dylid eu darllen ochr yn ochr â'r Cylchlythyr, gan gynnwys ynglŷn â defnyddio amodau cynllunio. Mae'r cyfeiriadau hyn wedi'u hamlygu yn yr Atodiad pan fo hynny'n bosibl.
- **Ymgynghoriad yr awdurdod lleol ar anghenion a chynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.** Mae canllawiau cenedlaethol a deddfwriaeth yn rhoi gwybodaeth am bwy y dylai awdurdodau lleol ymgynghori â nhw a sut y dylen nhw wneud hynny yn ystod y broses o nodi angen a chynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Yn y pen draw, cyfrifoldeb awdurdodau lleol unigol yw sicrhau eu bod yn ymgynghori â chyrff statudol, sefydliadau ac unigolion perthnasol yn ystod y broses hon. Os yw unigolyn neu sefydliad o'r farn nad yw awdurdod lleol wedi ymgynghori ag ef neu nad yw wedi ystyried ei farn, mae dulliau o wneud cwyn. Byddai hyn trwy gysylltu â'r awdurdod lleol yn gyntaf a bydd yn gallu rhoi cyngor ar faterion o'r fath yn briodol.
- **Codi am gyngor cyn gwneud cais ar gynigion safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.** Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio godi am unrhyw wasanaethau statudol cyn gwneud cais a ddarperir. Rhoddir eglurdeb ynglŷn â'r mater hwn yn Atodiadau C a D sy'n rhoi gwybodaeth i awdurdodau cynllunio a Sipsiwn a Theithwyr ar y broses gwneud ceisiadau cynllunio.

[2] Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, Llywodraeth Cymru, Mai 2015

- **Cysylltiad lleol.** Ystyrir bod y safle a amlinellir yn y Cylchlythyr drafft yn gywir wrth gadarnhau na ddylai awdurdodau cynllunio wrthod ceisiadau oherwydd nad oes gan yr ymgeisydd gysylltiad lleol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai hyn yn groes i ryddid symud Sipsiwn a Theithwyr, ac yn rhoi cyfyngiadau annheg ar y rhai sy'n dymuno symud i ardal newydd. Byddai hyn yn wir pa un a yw'r safle a gynigir y tu mewn neu'r tu allan i ffiniau anheddiad. Ar gyfer safleoedd y tu allan ffiniau anheddiad, yn unol â dull dilyniannol a amlinellir yn y Cylchlythyr, y mater allweddol i'w ystyried yw a oes safleoedd eraill i gynnal Sipsiwn a Theithwyr o fewn aneddiadau presennol.

  Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai awdurdodau lleol ddiwallu unrhyw anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr a nodir yn rhan o'u Hasesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr. Pan fo Sipsiwn a Theithwyr yn dymuno symud i ardal ac yn cyflwyno cais cynllunio yn briodol, dylid ystyried y ceisiadau yn eu rhinwedd eu hunain o safbwynt cynllunio. Ni ddylai penderfyniadau ar geisiadau o'r fath ddibynnu ar gysylltiad yr ymgeisydd â'r ardal na chanfyddiadau'r Asesiad o Lety, oherwydd dylai'r awdurdod lleol fod wedi ystyried angen lleol presennol eisoes. Mae'r Cylchlythyr yn eglur ynglŷn â chysylltiad lleol ac ynglŷn ag awdurdodau yn diwallu'r anghenion llety a nodir. Felly nid oes rhagor o newidiadau i'r Cylchlythyr o ran y materion hyn.
- **Canllawiau ac enghreifftiau 'arfer gorau'.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen rhagor o gyfarwyddyd arfer gorau, targedau ac enghreifftiau ar gyfer darparu safleoedd oherwydd bod anghenion a gofynion safleoedd yn amrywio o un ardal awdurdod lleol i'r llall. Felly, dylai pob awdurdod gyfeirio at y canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y Cylchlythyr a'u cymhwyso i'w hasesiadau eu hunain o angen a darpariaeth safleoedd. Hefyd, cyfeirir yn y Cylchlythyr at ganllawiau ehangach Llywodraeth Cymru ar ddarparu a rheoli safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys dylunio priodol.
- **Ymgynghori ar faterion Sipsiwn a Theithwyr a chynllunio.** Cyhoeddwyd y Cylchlythyr drafft am gyfnod o 12 wythnos a rhoddwyd gwybod i randdeiliaid sydd wedi cofrestru buddiant yn y system gynllunio a materion Sipsiwn a Theithwyr. Gweinyddir y broses ymgynghori ar gynigion safle penodol gan awdurdodau lleol, ac ymdrinnir â'r ymateb i hyn uchod.
- **Rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.** Mae rheoli safleoedd yn faterion ehangach na chylch gwaith Cylchlythyr cynllunio ac yn gyfrifoldeb perchennog y safle, a all fod yr awdurdod lleol. Mae rhagor o ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ar reoli safleoedd, gan gynnwys mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ar gael yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru (dyddiedig Mai 2015).

- **Hawliau Dynol, Cyfleoedd Cyfartal a Phlant.** Ystyrir bod yr adran hon o'r Cylchlythyr ar Hawliau Dynol yn ddigon i ystyried hawliau personau unigol wrth benderfynu ar gynigion safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried yn awtomatig y materion perthnasol wrth wneud eu penderfyniadau, yn arbennig pan fo'r dyletswyddau statudol megis anghenion a buddiannau plant.
- **Cyfeirio at gynlluniau datblygu lleol yn y Cylchlythyr.** Bwriad y canllawiau yw pwysleisio swyddogaeth cynlluniau datblygu fel y dull priodol o gyflenwi safleoedd trwy'r system gynllunio. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn bwysig i'r mater hwn fod yn fanwl a chynnwys cyfeiriadau ar lefel leol trwy gynnwys polisïau wedi'u seilio ar feini prawf mewn cynlluniau datblygu i sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn iddo yn y broses ceisiadau cynllunio. Yn lle cyfeirio'n benodol at Gynlluniau Datblygu Lleol, cyfeirir at 'gynlluniau datblygu' yn y Cylchlythyr, er mwyn ystyried y posibilrwydd o baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd yn gynlluniau datblygu ardaloedd awdurdod lleol ledled Cymru yn y dyfodol.
- **Apelio ac ystyriaethau perthnasol.** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r sylw ynglŷn â'r adran apelio yn y Cylchlythyr ac wedi diweddaru'r testun i egluro y dylid ymdrin â'r holl ystyriaethau perthnasol ar gyfer cynnig safle ar y cam ceisiadau cynllunio.
- **Rhannu data rhwng adrannau'r Cyngor ar Sipsiwn a Theithwyr.** Mae Llywodraeth Cymru ar y cyfan yn cefnogi rhannu data er mwyn llywio anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Cydnabyddir y gall data a gesglir amrywio yn lleol ac ystyrir mai awdurdodau unigol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa ddata y gellir ei rannu rhwng adrannau'r Cyngor, yn hytrach na rhagnodi gwybodaeth am hyn yn y Cylchlythyr.
- **Materion penodol eraill y cyfeiriwyd atynt.** Bwriad y Cylchlythyr yw darparu cyfarwyddyd cenedlaethol ar ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ledled y wlad drwy ddefnyddio'r system gynllunio. Mae'r materion penodol eraill y cyfeiriodd ymatebwyr atynt y tu hwnt i gylch gwaith y Cylchlythyr hwn; er enghraifft, gellir ymdrin â nhw trwy drefnau eraill neu ar lefel leol.

**Atodiad – Rhestr o Ymatebwyr yn ôl Categori**

| **Sefydliadau Busnes** | |
|---|---|
| Heine Planning | |
| Ruston Planning Limited | |
| The Community Law Partnership | |
| Dŵr Cymru | |
| Cyfanswm – **4** | Cyfanswm – **4** |

| **Awdurdodau Cynllunio** | |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | |
| Cyngor Sir Caerdydd | |
| Cyngor Sir Gaerfyrddin | |
| Cyngor Sir Ceredigion | |
| Dinas a Sir Abertawe | |
| Cyngor Sir Y Fflint | |
| Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn | |
| Parciau Cenedlaethol Cymru | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | |
| Cyngor Dinas Casnewydd | |
| Cyngor Sir Powys | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | |
| Cyngor Bro Morgannwg | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | |
| Cyfanswm – **14** | Cyfanswm – **14** |

| **Asiantaethau'r Llywodraeth neu Gyrff Eraill y Sector Cyhoeddus** | |
|---|---|
| Cyngor Tref Abergele | |
| Dienw | |
| Cyngor Tref Y Barri | |
| Cydbwyllgor AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy | |
| Heddlu Dyfed Powys | |
| Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | |
| Network Rail | |
| Heddlu De Cymru | |
| Heddlu De Cymru – Cynllunio i Atal Troseddu | |
| Cyngor Tref Brynbuga | |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | |
| Cyfanswm – 12 | Canran y cyfanswm o ymatebwyr o'r categori hwn – 30% |

| **Cyrff Proffesiynol neu Grwpiau â Buddiant** | |
|---|---|
| Royal Town Planning Institute Cymru (RTPI Cymru) | |
| The Law Society of England and Wales | |
| Cyfanswm – **2** | Cyfanswm – **2** |

| **Y Sector Gwirfoddol** | |
|---|---|
| Cytûn – Churches Together in Wales | |
| Cymorth Cynllunio Cymru | |
| Travelling Ahead / Tros Gynnal Plant | |
| Woodland Residents Association | |
| Cyfanswm – **4** | Cyfanswm – **4** |

| **Eraill** | |
|---|---|
| Dienw | |
| Dienw | |
| Unigolyn Preifat | |
| Unigolyn Preifat | |
| Cyfanswm – **4** | Cyfanswm – **4** |